

**Plant sy'n derbyn gofal, ymadawyr gofal
a'r perygl o feichiogi yn yr arddegau;
canfyddiadau o Gymru: Crynodeb o
ymateb cenedlaethol**

Dr Marion Lyons¹, Zoe Couzens¹,

**Dr Noel Craine¹, Sarah Andrews¹,
Rhiannon Whitaker²**

Ar ran y grŵp gorchwyl a gorffen ar feichiogrwydd yn yr arddegau.

Briff Ymchwil CASCADE

Rhif 6: Ionawr 2016

¹Lechyd Cyhoeddus Cymru, Amddiffyn Iechyd

²Whitaker Research Ltd, gynt o Uned Treialon Clinigol Prifysgol Bangor (NWORTH).



CASCADE

Children's Social Care
Research and Development Centre

Canolfan Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant



Briff Ymchwil

CASCADE

Rhif 6: Ionawr 2016



Plant sy'n derbyn gofal, ymadawyr gofal a'r perygl o feichiogi yn yr arddegau; confyddiadau o Gymru

Crynodeb o ymateb cenedlaethol

Dr Marion Lyons, Zoe Couzens, Dr Noel Craine, Sarah Andrews, Rhiannon Whitaker

Negeseuon allweddol ar gyfer polisi ac ymarfer

- Mae data Cymru'n dangos risg uwch o feichiogi yn ystod yr arddegau ymhlith plant sy'n derbyn gofal ac mae'n amlygu pa mor agored i niwed yw'r grŵp hwn yng Nghymru.
- Dylai comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau ar draws Cymru sicrhau bod gwasanaethau hygyrch a phriodol (yn unol â chanllawiau NICE) sy'n cynnig dulliau atal cenhedlu gwrthdroadol hirdymor ar gyfer y grŵp hwn.
- Ar hyn o bryd, nid oes gofyniad statudol i wasanaethau cymdeithasol yng Nghymru adrodd ar lefelau beichiogrwydd ymhlith plant mewn gofal. Dylai comisiynwyr gwasanaethau ystyried ychwanegu lefelau cenhedlu a chanlyniadau beichiogrwydd at ofynion adrodd er mwyn cynorthwyo â darparu gwasanaethau gwell.
- Dylid datblygu clinigau mewn ysgolion a gweithwyr allgymorth iechyd rhywiol yn yr ardaloedd o Gymru lle nad yw gwasanaethau iechyd rhywiol sy'n hygyrch i bobl ifanc yn bodoli ar hyn o bryd.
- Dylai hyfforddiant pob gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, gan gynnwys gofalwyr maeth a staff cartrefi gofal sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal, gynnwys hyfforddiant wedi'i ddilysu, o safon uchel, ar iechyd rhywiol. Dylai'r ddarpariaeth hyfforddiant gael ei harchwilio.
- Mae rôl allweddol gan nyrsys plant sy'n derbyn gofal; dylid gwarchod eu gallu i roi cyngor a chefnogaeth reolaidd i bobl ifanc ar iechyd rhywiol, gweithredu fel cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol eraill a chynnal eu gwybodaeth a'u cymhwysedd proffesiynol eu hunain ym maes iechyd rhywiol, yn enwedig dulliau atal cenhedlu.
- Dylai addysg ar sgiliau magu plant fod ar gael i bob rhiant ifanc sydd â chefnidir mewn gofal.
- Mae'r ffaith hysbys bod plant sy'n derbyn gofal mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hecsbloetio'n rhywiol, a oedd y tu hwnt i gwmpas yr astudiaethau hyn, yn ategu'r angen am well hyfforddiant a gwasanaethau ynghylch materion iechyd rhywiol.



CASCADE

Children's Social Care
Research and Development Centre

Canolfan Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant





Cefndir y gwaith

Rhwng 2011 a 2014, bu Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyd-drefnu rhaglen waith a oedd yn anelu at leihau lefelau beichiogi yn yr arddegau yng Nghymru. Bu gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, ysgolheigion a staff iechyd cyhoeddus yn gweithio i ddeall patrymau beichiogi yn yr arddegau ac i gynllunio ymateb cenedlaethol effeithiol i'r broblem. O fewn y corff eang hwn o waith, talwyd sylw penodol i ddeall y lefelau a'r risg beichiogi yn yr arddegau ymhlith plant sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal. Roedd dwy brif elfen i'r gwaith hwn: astudiaeth gwmpasu ansoddol fer a oedd yn mynd i'r afael â safbwyntiau ynghylch gwasanaethau a rhwydweithiau cymorth presennol ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal, ynghyd â dadansoddiad meintiol o gyfraddau beichiogrwydd ymhlith pobl ifanc sy'n derbyn gofal fel rhan o archwiliad ehangach o feichiogrwydd yn yr arddegau yng Nghymru. Cafodd data ar gyfer y gwaith diweddarach hwn ei gasglu a'i ddadansoddi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a chydweithwyr yn Sefydliad Ymchwil Gofal Meddygol a Chymdeithasol Prifysgol Bangor.

Anghenion pobl ifanc sy'n derbyn gofal

Roedd astudiaeth ansoddol o safbwyntiau pobl ifanc sy'n derbyn gofal, eu gofalwyr a'r gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw wedi'i chomisiynu a'i chyflawni gan randdeiliaid o blith y grŵp. Diben yr astudiaeth oedd nodi'r ffactorau cyfrannol a oedd yn arwain at feichiogrwydd ymhlith plant sy'n derbyn gofal a'r rhai a oedd wedi ymadael â gofal yn ddiweddar, a chyflwyno argymhellion ar gyfer gwell ymarfer. Casglwyd data ansoddol gan ddefnyddio cyfweiliadau, holiaduron a grwpiau ffocws. Casglwyd data ansoddol gan ddefnyddio nifer bach o grwpiau ffocws: un grŵp o ofalwyr maeth (n=20) a dau grŵp o bobl ifanc sy'n derbyn gofal (n=11 ac 8), gyda chyfweiliadau â neu holiaduron o gartrefi gofal (n=15) ac asiantaethau'r sector gwirfoddol (n=3) yn ategu'r grwpiau.

Daeth yr astudiaeth i'r casgliad:

- Dylid cofnodi, archwilio ac adolygu beichiogrwydd yn yr arddegau ymhlith plant sy'n derbyn gofal. Dylid cyflawni hyn gan amddiffyn preifatrwydd pobl ifanc yn briodol a heb beryglu cyfrinachedd gwasanaethau iechyd rhywiol.
- Mae symud lleoliadau yn aml, yn gysylltiedig ag effaith hyn ar allu pobl ifanc i feithrin perthynas iach (naill ai gyda phartneriaid neu weithwyr proffesiynol y gallant ymddiried ynddynt) yn cynyddu risg beichiogrwydd ymhlith pobl ifanc.
- Mae ar bob gwasanaeth sy'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac ymadawyr gofal angen darparu a chynorthwyo staff/gofalwyr sy'n gallu datblygu perthynas o ymddiriedaeth a sensitifrwydd gyda phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Gall fod angen i wasanaethau iechyd rhywiol archwilio'r ffordd orau o allu cyflawni hyn.
- Dylai darparu cymorth ac addysg ar faterion iechyd rhywiol gael ei gynnwys yn benodol yn nisgrifiadau swydd gofalwyr maeth, staff gofal preswyl, cynghorwyr personol a gweithwyr allweddol eraill i sicrhau bod dealltwriaeth glir o'r cyfrifoldeb hwn.
- Dylai hyfforddiant wedi'i ddilysu ar iechyd rhywiol gael ei ddarparu'n rheolaidd, fel mater o drefn, i nyrsys plant sy'n derbyn gofal a gweithwyr mewn gofal preswyl a maeth. Dylid archwilio'r ddarpariaeth hyfforddiant.
- Dylai hyfforddiant adlewyrchu'r angen i barchu anghenion penodol plant a phobl ifanc, fel eu cyfeiriadedd rhywiol ac unrhyw anabledau corfforol neu ddysgu. Mae pobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi cael llai o ddewisiadau a chyfrinachedd yn eu bywyd, felly mae angen i wasanaethau cyngor ac iechyd gymryd gofal mawr i ddangos bod hawl dewis a chyfrinachedd gan bobl ifanc wrth iddynt droi at wasanaethau am gymorth.
- Dylai gwasanaethau iechyd rhywiol fod yn ddibynadwy, yn hygyrch ac yn addas i bobl ifanc, gan gynnig y dewis ehangaf o ddulliau atal cenedlu hirdymor. Dylid ystyried cael gweithwyr allgymorth iechyd rhywiol yn yr ardaloedd o Gymru lle nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd. Dylid ystyried cael clinigau mewn ysgolion hefyd.
- Dylid datblygu a chryfhau cysylltiadau priodol rhwng gwasanaethau iechyd rhywiol a gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal.
- Mae data'n awgrymu nad yw cyfran o blant sy'n derbyn gofal yn cael addysg rhyw a pherthynas pan maent yn yr ysgol. Dylid asesu hepgoriadau o'r fath yn systematig a mynd i'r afael â'r bylchau yn y gwasanaeth a ddarperir mewn ffyrdd eraill, er



enghraifft pan fydd pobl ifanc yn mynd i addysg bellach.

- Mae rhan allweddol gan nyrsys plant sy'n derbyn gofal. Dylid gwarchod eu gallu i roi cyngor a chefnogaeth reolaidd i bobl ifanc ar iechyd rhywiol, gweithredu fel cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol eraill a chynnal eu gwybodaeth a'u cymhwysedd proffesiynol eu hunain ym maes iechyd rhywiol, yn enwedig dulliau atal cenhedlu.
- I rai pobl ifanc sydd wedi derbyn gofal gydol eu bywyd, mae beichiogrwydd yn brofiad newydd, h.y. bywyd fel aelod llawn o deulu sy'n perthyn. Mae hyn yn haeddu parch a chymorth priodol fel dewis cadarnhaol.
- Dylai addysg ar sgiliau magu plant fod ar gael i bob rhiant ifanc sydd â chefnidir mewn gofal.

Dangosodd y gwaith cwmpasu'r rhan ganolog sydd gan dimau nyrsys plant sy'n derbyn gofal wrth ddarparu gwybodaeth briodol i blant sy'n derbyn gofal a'u cyfeirio lle y bo'n briodol at wasanaethau iechyd rhywiol arbenigol.

Archwilio lefelau cyflwyno beichiogrwydd yn yr arddegau; rôl plant sy'n derbyn gofal

Cynhaliom ddadansoddiad ychwanegol o ddata ar gyfradd y beichiogiadau a welwyd rhwng Ebrill 2012 a chanol Mehefin 2013 ymhlith plant sy'n derbyn gofal; daeth y data o archwiliad Cymru gyfan ehangach o nifer y merched o dan 18 a ddaeth at y gwasanaeth iechyd yn feichiog (Craine et al. 2014). Mae'r archwiliad hwn, o'r enw 'Grymuso i Ddewis', yn cael ei ddisgrifio'n fanylach yn

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/59785>.

Cofnododd yr archwiliad wybodaeth am y merched ifanc a ddaeth at y gwasanaethau a chanlyniadau beichiogrwydd. Cymharom gyfraddau'r plant sy'n derbyn gofal a ddaeth at y gwasanaethau'n feichiog, o fewn y data cyffredinol ar feichiogrwydd, â chyfraddau'r boblogaeth plant sy'n derbyn gofal a chymharu'r wybodaeth hon â chyfraddau ymhlith plant eraill. Darparwyd data enwadur ar y data mwyaf diweddar sydd ar gael ar feichiogi yn yr arddegau ar gyfer Cymru (sydd ar gael ar gyfer 2011) a nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn ôl grŵp oedran (ar gyfer 2012) gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru yn y drefn honno. I archwilio effaith gwerthoedd coll yn y data, defnyddiwyd cyfrifiad amlamryweb. Hefyd, cymharom nifer y rhai a oedd yn defnyddio dulliau atal cenhedlu gwrthdroadwy hirdymor a chanlyniadau

beichiogrwydd ymhlith plant sy'n derbyn gofal a phlant eraill.

- Cofnodwyd bod dros bum gwaith yn fwy o bobl ifanc sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd (5%) yn feichiog o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol o bobl ifanc o dan 18 oed yng Nghymru (0.8%). Roedd plant sy'n derbyn gofal yn fwy tebygol o lawer o barhau â beichiogrwydd hyd at enedigaeth yn hytrach na phlant eraill: 70% (28 o 40 beichiogrwydd) o gymharu â 28% (183 o 661 beichiogrwydd).
- Roedd y gwaith hwn yn dangos yn glir y risg uwch o lawer o feichiogrwydd yn yr arddegau ymhlith plant sy'n derbyn gofal o'u cymharu yn ôl oedran â'u cyfoedion nad ydynt mewn gofal. Mae'r data yn awgrymu bod lefelau beichiogrwydd ymhlith plant sy'n derbyn gofal yn cynrychioli cyfran sylweddol o feichiogiadau yn yr arddegau yng Nghymru. Mae'r canfyddiad bod plant sy'n derbyn gofal yn fwy tebygol o lawer o barhau â beichiogrwydd hyd at enedigaeth na phlant eraill â goblygiadau pwysig i wasanaethau sy'n gofalu am y grŵp hwn sy'n agored i niwed. Yn ogystal, rhoddodd y data hwn dystiolaeth bod o leiaf 54% o bobl ifanc yn eu harddegau sy'n feichiog (a 57% o blant sy'n derbyn gofal sy'n feichiog) yn defnyddio dulliau atal cenhedlu gwrthdroadwy hirdymor ar ôl beichiogrwydd. Mae diffyg adroddiadau am yr amnewidyn hwn yn ychwanegu ansicrwydd at yr amcangyfrif hwn, fodd bynnag, mae'n ymddangos bod cyfran sylweddol o blant sy'n derbyn gofal mewn perygl o feichiogi eto cyn eu bod yn 18 oed.
- Er y lefel uwch o feichiogiadau yn yr arddegau ymhlith plant sy'n derbyn gofal, mae tystiolaeth galonogol o archwiliad Grymuso i Ddewis sy'n cyd-fynd â gostyngiad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n dod at y gwasanaeth iechyd yn feichiog gydag amser.

Yr ymateb presennol

Mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn, datblygwyd pecyn hyfforddi cynhwysfawr yn mynd i'r afael ag anghenion nyrsys plant sy'n derbyn gofal am hyfforddiant ar iechyd rhywiol a dulliau atal cenhedlu, a chyflwynwyd yr hyfforddiant i dimau nyrsys plant sy'n derbyn gofal ar draws Fyrddau Iechyd Cymru (gweler Addysg Iechyd Rhywiol i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru, Rhwydwaith y Coleg Agored Lefel 3).

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/opendoc/279388>

Manylion pellach

Roedd y gwaith a ddisgrifiwyd yma yn rhan o ymateb ehangach lechyd Cyhoeddus Cymru i feichiogi yn yr arddegau ac fe'i hariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae gwybodaeth am y prosiect Grymuso i Ddewis ar gael o <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/59785> .

Cyhoeddiad: N. Craine, C. Midgley, L. Zou, H. Evans, R. Whitaker, M. Lyons, Elevated teenage conception risk amongst looked after children; a national audit, Public Health, Volume 128, Issue 7, Gorffennaf 2014, tudalennau 668-670 (ar gael i'w lawrlwytho am ddim)



CASCADE

Children's Social Care
Research and Development Centre
Canolfan Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant



Cardiff School
of Social Sciences



Ysgol Gwyddorau
Cymdeithasol Caerdydd

